Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Ponthenri
# Heol Y Pentre
# Ponthenri
# Llanelli
# Carmarthenshire
# SA15 5NS

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2012**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref Ponthenri, ger Llanelli, Sir Gaerfyrddin. Daw'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion o'r pentref, sydd mewn ardal o dan anfantais economaidd.

Mae 45 disgybl, rhwng tair ac 11 oed, ar y gofrestr. Maent yn cynrychioli'r ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio tipyn pan ddechreuant yn yr ysgol.

Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng rhyw 25% ers yr arolygiad diwethaf. Derbynia'r ysgol ddisgyblion amser llawn i'r dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Fe reolir a gweinyddir mynediad i'r dosbarth derbyn gan yr awdurdod lleol.

Darperir addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl ddisgyblion er mai Saesneg yw prif iaith y cartref i tua hanner ohonynt. Mae 24% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl. Mae 29% o'r disgyblion wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, ac mae dau ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth o oed cymysg mewn un adeilad, a lleolir y neuadd, y ffreutur ac ystafell adnoddau mewn adeilad arall ond ar yr un safle. Fe'u haddysgir gan ddau athro amser llawn ac un rhan amser. Mae cryn newid staffio wedi bod yn ddiweddar. Apwyntiwyd y pennaeth presennol ym mis Ebrill 2012 o dan drefniadaeth Ffederasiwn. Mae hefyd yn gyfrifol am ddwy ysgol arall yn ardal Cwm Gwendraeth. Fe gaiff ei chefnogi gan bennaeth cynorthwyol a benodwyd ym mis Medi 2012.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Ponthenri yn 2011-2012 yn golygu cyllideb o £3,801 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Caerfyrddin yw £18,947 a'r lleiafswm yw £3,114. Mae ysgol Gynradd Ponthenri yn safle 34 o'r 110 ysgol gynradd yng Nghaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson;
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel;
- yr addysgu'n gyson dda;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, ar y cyfan, yn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion; a bod
- partneriaethau gyda'r rhieni ag ysgolion lleol yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth a'r llywodraethwyr weledigaeth glir a'u bod yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y disgyblion a'r rhieni;
- yr ysgol yn adnabod ei pherfformiad ei hun yn dda;
- cynllunio ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio ar godi safonau; a
- pharodrwydd ysgolion y Ffederasiwn ag ysgolion lleol eraill i barhau i gydweithio fel cymuned ddysgu effeithiol.

## Argymhellion

R1 gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion ar draws yr ysgol;

R2 gwella'r ddarpariaeth i hyrwyddo Saesneg ar draws y cwricwlwm;

R3 cryfhau'r elfennau gwahaniaethol yn y cynllunio i fodloni'n well anghenion pob disgybl;

R4 datblygu ymhellach asesu ar gyfer dysgu a rôl y disgyblion yn y broses.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn y Cyfnod Sylfaen, ac ar ddiwedd Blwyddyn 6 yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 llwyddodd bron pob plentyn i gyflawni'r lefelau disgwyliedig, sef deilliant 5 (lefel2) neu well. Mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a mathemateg, llwyddodd llawer o'r garfan gyflawni deilliant 6 (lefel 3).

O gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio ychydig yn is na'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. O ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen mae'r ysgol wedi ei gosod yn y 50% isaf ond yn y 25% uchaf o ran medrau personol a cymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi amrywio dros gyfnod o bedair blynedd. Yn 2012 roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn Cymraeg a mathemateg ychydig yn well nag ysgolion y teulu ond ychydig yn is mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a gallu.

Yn eu llyfrau gwaith, ac yn y sesiynau arsylwi, mae llawer o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cyson. Maent yn galw i gof ddysgu blaenorol yn hyderus a gwybodus. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl yn llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth ac yn eu cymhwyso i sefyllfaoedd newydd. Nid ydynt yr un mor hyderus yng nghyfnod allweddol 2. Mae mwyafrif y disgyblion yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, heb y medrau angenrheidiol i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae gan fwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol fedrau siarad a gwrando da. Maent yn cyfrannu yn dda, yn enwedig yn y Gymraeg, ac yn mynegi eu syniadau yn hyderus mewn gweithgareddau gwaith trafod grŵp. Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu hyn ymhellach yng nghyfnod allweddol 2. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n sydyn iawn ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac yn effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau darllen cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda, maent yn darllen i bwrpas ac yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r testun. Defnyddiant ystod o strategaethau priodol yn llwyddiannus i fynd i'r afael â geirfa newydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda goslef briodol. Maent yn dod yn gynyddol gyfarwydd â defnyddio ffynonellau amrywiol yn bwrpasol i gywain gwybodaeth yn eu hastudiaethau.

Yn y Cyfnod Sylfaen gwna lawer o'r disgyblion gynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn dod yn gynyddol hyderus i ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio geirfa addas a diddorol. Mae medrau ysgrifennu Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn dda, ond prin yw'r enghreifftiau yn Saesneg. Nid yw medrau sillafu llawer o'r disgyblion yn ddigon cadarn yn Saesneg.

Mae cyflwyniad gwaith a llawysgrifen bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn dda.

**Lles: Da**

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd pob disgybl yn datblygu'n dda ac maen nhw'n cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae gan bron bob plentyn ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta bwyd iach ac i gadw'n heini. Maent i gyd yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno.

Mae mwyafrif y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn barod i gyfrannu mewn gwersi. Mae ymddygiad pob disgybl yn dda iawn o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Dengys y disgyblion barch a gofal am ei gilydd, ac maent yn gwrtais â phawb.

Mae cyfraddau presenoldeb o 91.3% yn is nag ysgolion tebyg.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod ac yn awyddus i dderbyn cyfrifoldebau o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae'r cyngor ysgol yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau, a chaiff safbwyntiau a syniadau disgyblion eu hystyried o ddifrif.

Dim ond megis dechrau mae gosod meini prawf llwyddiant yn rhan reolaidd o ymarfer yn y dosbarthiadau. Nid yw'r disgyblion yn hyderus eto yn y broses ac yn deall pa mor fuddiol yw'r pwrpas. Lleiafrif o'r disgyblion sydd ar hyn o bryd â'r hyder a'r gallu i werthuso eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Nid ydynt bob amser yn sicr o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae athrawon y Ffederasiwn yn darparu gwaith ar y cyd yn effeithiol i baratoi amrywiaeth o brofiadau

diddorol. Mae'r profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnig gweithgareddau ysgogol a heriol i'r holl ddisgyblion sy'n sicrhau cynnydd cyson. Yng nhyfnod allweddol 2, mae'r profiadau dysgu diddorol yn ymdrin yn briodol â gofynion y cwricwlwm ac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw'r cynllunio tymor byr bob amser yn ymateb i ofynion pob disgybl.

Gwneir defnydd da o'r amgylchedd tu allan. Mae ymweliadau tu hwnt i'r ysgol ac ymwelwyr i'r ysgol yn cyfrannu'n helaeth i ehangu a chyfoethogi'r profiadau dysgu.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg yn gadarn iawn, ond nid yw yr un mor drwyadl yn y Saesneg. Rhoddir sylw da i'r dimensiwn Cymreig. Fe ddarperir ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol ac am gelf a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn effeithiol drwy weithgareddau ymarferol y disgyblion, ac yn ymateb yn dda i flaengareddau cenedlaethol. Nid yw'r ysgol yn llwyddo cystal i ddatblygu dinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Ar y cyfan, mae'r addysgu o ansawdd da ym mhob gwers. Mae gan yr holl athrawon a'r cymorthyddion wybodaeth drylwyr am y testun a gyflwynir. Mae perthynas waith dda rhwng staff a'r disgyblion ym mhob dosbarth ac mae'r oedolion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol. Defnyddir canmoliaeth yn gyson i annog y disgyblion. Ar y cyfan, mae cyflymder da i'r gwersi ac fe wneir defnydd da o fyrddau gwyn rhyngweithiol ac adnoddau dysgu i gynorthwyo ac ennyn dealltwriaeth y disgyblion o'u gwaith. Fe wneir defnydd da ac effeithiol iawn o ystod amrywiol o ddulliau dysgu. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r gweithgareddau wedi eu cynllunio yn ddigon manwl i herio pob disgybl o wahanol allu.

Mae holl athrawon a staff ategol yr ysgol yn modelu iaith safonol yn effeithiol iawn. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y disgyblion, yn arbennig yn y Gymraeg.

Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi unigol yn fanwl ac yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o amcanion y wers. Maent yn rhoi adborth llafar defnyddiol ac yn marcio gwaith yn rheolaidd gyda sylwadau cadarnhaol. Fodd bynnag, anaml iawn mae'r sylwadau yn cynnwys arweiniad ar sut i wella.

Mae gan yr ysgol sustemau tracio cynnydd a lles cynhwysfawr a thrylwyr. Maent yn effeithiol fel arf ar gyfer sicrhau ymyrraeth briodol er nad yw hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn y cynllunio dyddiol. Mae'r defnydd o waith cymedroli ar y cyd ag ysgolion lleol eraill yn werthfawr, ac yn hwyluso'r broses o bennu lefelau yn llwyddiannus.

Mae'r adroddiadau ar gynnydd y disgyblion i rieni yn fanwl ac yn ddefnyddiol, gan nodi'r hyn mae angen i'r disgybl ei wneud i wella'i berfformiad yn y dyfodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach.  Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau.

Mae'r ethos cynhwysol a'r profiadau niferus yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn llwyddiannus.  Mae cwrteisi a pharch yn rhinwedd amlwg yn yr ysgol ac maent yn cael eu meithrin yn ddyddiol gan holl aelodau'r staff.  Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion drwy gysylltiadau â nifer o sefydliadau yn y gymuned leol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn, a llwyddir i ymateb yn brydlon i bryderon.  Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu adolygu a'u diweddaru yn effeithiol a rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r rhieni, y disgybl, a'r asiantaethau arbenigol priodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.  Mae ethos cartrefol, croesawgar yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cyd-dynnu'n dda.

Anogir y disgyblion i ddangos parch a gofal tuag at eu hunain ac eraill, ac mae ganddynt berthynas dda gyda'u cyfoedion a staff yr ysgol.  Mae gan bob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm ac mae bechgyn a merched yn cymryd rhan ym mhob gweithgaredd.

Mae'r ddau adeilad sydd ar dir yr ysgol yn cynnig digon o ofod ac fe wneir defnydd da iawn ohonynt.  Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddeniadol, ond ni ellir ei defnyddio yn effeithiol iawn i hyrwyddo dysgu annibynnol oherwydd diffyg mynediad uniongyrchol o'r dosbarth.

Mae digon o adnoddau ym mhob maes i hyrwyddo dysgu ac addysgu ar wahân i dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.  Mae'r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth yn ddeniadol gydag arddangosfeydd lliwgar sy'n dangos parch at waith y disgyblion.  Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion clir sy'n cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus gan holl staff yr ysgol a'r Ffederasiwn.  Cynigia'r pennaeth gyfeiriad strategol pwrpasol i fywyd a gwaith yr ysgol.  Mae yna bwyslais da ar wella safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr.  Mae athrawon yn cyd-weithio'n dda i ddatblygu gweithgareddau a ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu.  Mae hyn yn dylanwadu'n bositif ar gyflawniad disgyblion.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir. Cefnogir eu datblygiad proffesiynol parhaus trwy system effeithiol o reoli perfformiad. Mae hyn yn hybu'r broses o wella'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus iawn am berfformiad yr ysgol ac yn barod iawn i herio deilliannau'r disgyblion o fewn y teulu ysgol a'r Ffederasiwn lleol. Maent yn gefnogol iawn i sicrhau dyfodol yr ysgol fel aelod o'r Ffederasiwn. Maent yn datblygu ymhellach eu harbenigeddau yn ystod teithiau dysgu. Mae polisïau a'r ddogfennaeth statudol yn ateb y gofynion yn llawn.

Mae nifer o flaengareddau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n briodol ac yn cyfrannu'n bositif at godi a chynnal safonau. Enghraifft arbennig o hyn yw'r sylw a roddir i lythrennedd a'r iaith Gymraeg.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ystod eang o wybodaeth, rhwydweithio effeithiol a hinsawdd o fonitro a herio safonau yn sicrhau bod yr hunan werthuso a'r cynllun gweithredu yn berthnasol ac yn gyfredol. Caiff y rhieni a'r disgyblion gyfle i leisio barn ac fe ystyrir eu sylwadau o ddifrif. Mae deilliannau'r hunan arfarnu'n dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella safonau.

Ceir hanes o fonitro effeithiol o fewn yr ysgol ac mae'r pennaeth a staff y Ffederasiwn erbyn hyn yn dehongli yn gyson ystod o wybodaeth berthnasol. Mae'r ymarfer yn cynnwys, dadansoddi data, arsylwadau dosbarth, craffu a thrafod gwaith gyda'r disgyblion. Yn ychwanegol, fe ddefnyddir deilliannau o'r system rheoli perfformiad i adnabod cryfderau ac ardaloedd i'w gwella. Mae hyn yn effeithiol i benderfynu blaenoriaethau.

Mae'r rhwydweithiau o arfer broffesiynol oddi mewn a thu hwnt i'r ysgol, yn dylanwadu'n effeithiol iawn ar arferion a safonau'r ysgol yn arbennig wrth ddatblygu a gwella llythrennedd a chyfathrebu. Mae'r ysgol wedi cwrdd â gofynion argymhellion yr arolygiad blaenorol ac wedi parhau i ddatblygu medrau llythrennedd ymhellach ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol berthynas gref iawn gyda staff y ddwy ysgol arall o fewn y Ffederasiwn sy'n cynnwys rhannu arbenigedd ac adnoddau i gyfoethogi profiadau dysgu.

Mae gan yr ysgol hefyd ystod briodol ac effeithiol o bartneriaid strategol eraill. Mae'r partneriaethau hyn, sy'n cynnwys swyddogion gwella ysgolion yr awdurdod, rhieni a'r gymuned ehangach yn cefnogi dysgu a lles y disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae trefniadau pontio yn effeithiol ar gyfer plant sy'n trosglwyddo o'r cylch meithrin i'r ysgol ac i'r disgyblion sydd yn trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd lleol. Mae'r trefniadau yn gymorth da i'r disgyblion ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n effeithiol. Mae’r holl staff yn cydweithio’n llwyddiannus ac fe wneir defnydd gwerthfawr o’u harbenigedd. Cefnogir y staff addysgu gan dîm effeithiol o gymorthyddion. Maent yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi’r disgyblion.

Gwna’r athrawon ddefnydd gwerthfawr o’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae ystod ddefnyddiol o adnoddau priodol i gefnogi dysgu ac addysgu. Fe’u rheolir yn dda i gefnogi a gwella safonau a lles y disgyblion a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu.

Mae’r adeilad, gan gynnwys yr ardaloedd allanol, yn cynnig amgylchedd dysgu deniadol a diogel.

Mae gwariant yn cael ei fonitro’n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni deilliannau da ac o’r herwydd, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2, yn y Cyfnod Sylfaen, ac ar ddiwedd Blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 llwyddodd bron pob plentyn gyflawni'r lefelau disgwyliedig, sef deilliant 5 (lefel2) neu well. Mewn medrau iaith llythrennedd a chyfathrebu a mathemateg llwyddodd llawer o'r garfan gyflawni deilliant 6 (lefel 3).

O gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawliau i brydau ysgol ddi-dâl, roedd yr ysgol yn perfformio yn ychydig yn is na'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. O ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen mae'r ysgol wedi ei gosod yn y 50% isaf ond yn y 25% uchaf o ran medrau personol a cymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol o gymharu perfformiad bechgyn a merched.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi amrywio dros gyfnod o bedair blynedd. Yn 2009 a 2012 roedd y ganran yn is nag ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru ond yn uwch yn 2010 a 2011.

Yn 2012 roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim mewn Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Yn 2012 mae cyrhaeddiad y disgyblion mewn llafaredd Cymraeg ychydig yn well nag ysgolion tebyg, ac wedi bod yn batrwm cyson dros y tair blynedd ddiwethaf.

Yn 2012 mae cyrhaeddiad disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu ychydig yn is nag ysgolion tebyg er y bu'r patrwm yn uwch dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn Cymraeg a mathemateg ychydig yn well nag ysgolion y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Mae cynnydd sylweddol i'w weld dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn Saesneg, o ran disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 5, mae'r ysgol yn perfformio'n well na'r awdurdod lleol a Chymru ond ychydig yn is na'r teulu. Bu hyn yn batrwm tebyg dros y 2 flynedd diwethaf.

Mewn gwyddoniaeth mae'r canlyniadau Lefel 5 yn is nag ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru ond eto fe welir cynnydd dros i ddwy flynedd ddiwethaf.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n briodol yn unol â'u gallu, cyrhaeddiad blaenorol ac anghenion addysgol arbennig.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Derbyniwyd 25 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefel bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae bron pob un rhiant yn datgan eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plant yn ddiogel ynddi. Mae pob un hefyd yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae bron pob rhiant yn teimlo bod yr addysgu yn y dosbarthiadau yn dda ac yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae pob un yn cytuno bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol a'u bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater. Mae pob rhiant hefyd yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Ychydig iawn sydd yn teimlo nad ydynt yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae bron pob rhiant o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu'n dda iawn.

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 30 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae pawb ond un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Mae'r rhan fwyaf yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Mae ychydig iawn o'r disgyblion yn teimlo nad yw eu gwaith cartref yn eu cynorthwyo i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae lleiafrif o'r farn nad yw pob plentyn yn ymddwyn yn dda amser cinio ac amser chwarae. Mae'r lefel bodlonrwydd hon yn cymharu'n dda â chyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd ar wahân fod ychydig o'r disgyblion yn teimlo nad ydynt yn cael llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd ac nad yw plant yn ymddwyn yn dda bob amser fel y gallant wneud eu gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Merfyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Davies | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Derfel Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian Evans | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.